**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 1 Tachwedd 2000 |
| **Amser:** | 2:00 pm hyd 5:00 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Presenoldeb:**

***Aelodau:***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| David Davies | Sir Fynwy |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Sue Essex, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Delyth Evans (yn dirprwyo dros Carwyn Jones) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Christine Humphreys | Gogledd Cymru |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Sir Gaerfyrddin a Dinefwr |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Keith Bush | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| Martin Evans | Cyfarwyddwr Gr^wp Trafnidiaeth, Cynllunio a’r Amgylchedd |
| Bob Macey (eitemau 3, 6 a 7) | Pennaeth Is-adran yr Amgylchedd |
| Robin Shaw (eitemau 4 a 5) | Cyfarwyddwr Trafnidiaeth |
| Richard Thurston (eitemau 4 a 5) | Yr Is-adran Cyngor Economaidd |
| Phil Bishop (eitemau 6 a 7) | Rheolwr Prosiect, Ymchwiliad Nant-y-gwyddon |
| Michael Trickey (eitemau 6 a 7) | Yr Is-adran Cynllunio Ariannol |

***Yn bresennol:***

| | |
|---|---|
| David Purchon (eitem 2) | Ymchwilydd Annibynnol |
| Denys Morgan (eitemau 4 a 5) | Ymgynghorydd Arbenigol |
| Roger Thomas (eitem 6) | Cyfarwyddwr, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |

***Ysgrifenyddiaeth:***

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol gan y Cadeirydd**

0.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau, y swyddogion a'r cyhoedd i'r cyfarfod. Hysbyswyd yr aelodau am fân newidiadau yn y flaenraglen waith ar gyfer gweddill tymor yr Hydref.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyadau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Delyth Evans (a oedd yn dirprwyo dros Carwyn Jones), a nododd ymddiheuriadau oddi wrth Glyn Davies a John Marek. Atgoffodd yr aelodau y byddid yn trefnu hyfforddiant i'r aelodau newydd, wedi i'r Cyfarfod Llawn roi cymeradwyaeth ffurfiol i newidiadau sydd ar ddod yn aelodaeth y pwyllgor, er mwyn eu galluogi i eistedd ar y Panel Penderfyniadau Cynllunio.

**Eitem 2: Nant-y-gwyddon: cyflwyno'r ymchwilydd annibynnol i'r pwyllgor**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd David Purchon, yr ymchwilydd annibynnol i'w gyfarfod pwyllgor cyntaf. Atgoffodd y pwyllgor ei fod wedi cwblhau cam cyntaf yr ymchwiliad, sef y ddau sesiwn cyhoeddus ar 12 a 18 Hydref. Byddai cofnod air am air o'r ddau sesiwn a'r dystiolaeth yn cael ei ddarparu i'r ymchwilydd, a fyddai'n bwrw ymlaen â'r ymchwiliad manwl i'r materion. Byddid yn rhoi adroddiadau ar gynnydd i'r pwyllgor yn ddeufisol, a byddai'r ymchwilydd yn cyflwyno ei adroddiad terfynol ddiwedd Mai 2001, a fyddai o gymorth i'r

pwyllgor wrth wneud ei argymhellion i'r Cyfarfod Llawn.

2.2 Diolchodd David Purchon i'r pwyllgor am y cyfle i gynorthwyo â'i ymchwiliad, ac amlinellodd ei arbenigedd ym meysydd iechyd amgylcheddol a chyhoeddus. Rhagwelai y byddai'r ymchwiliad yn mynd rhagddo mewn dau gam: yn gyntaf, archwiliad adolygol trwyadl o'r materion, gan brofi tystiolaeth yn gyhoeddus lle bynnag y bo modd; yn ail, ystyriaeth i reolaeth gynaliadwy o wastraff yn y dyfodol.

2.3 Dymunodd yr aelodau'n dda i'r ymchwilydd a dywedasant ei bod yn bwysig bod yr ymchwiliad yn ymdrin â materion sydd yn peri pryder i drigolion lleol.

**Eitem 3: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** - EPT-11-00 (p 1)

3.1 Tynnodd Sue Essex sylw'r pwyllgor at yr eitemau yn ei hadroddiad ysgrifenedig a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y sefyllfa mewn perthynas â South Wales Trains. Byddai hi a'r Prif Weinidog yn cyfarfod â'r Arglwydd MacDonald a John Prescott y diwrnod canlynol i drafod y rhwydwaith rheilffyrdd. Yr oedd y Gweinidog dros yr Amgylchedd a'r Prif Weinidog wedi cyfarfod hefyd â chynrychiolwyr o'r lobi brotest tanwydd y diwrnod hwnnw, a buasai'n gyfarfod adeiladol.

3.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Yr oedd yr Aelodau'n ddiolchgar bod Gweinidogion wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o'r lobi brotest tanwydd, yr oedd yn bwysig bod y ddeialog yn parhau. Nodwyd bod trefniadau newydd ar waith ar gyfer cysylltu rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r gwasanaethau argyfwng os byddai protestiadau tanwydd pellach, a chofnododd y Gweinidog dros yr Amgylchedd ei diolch i'r holl staff a weithiodd yn Uned Argyfwng y Cynulliad Cenedlaethol;
- Mynegwyd pryder ynghylch gwasanaethau trenau a oedd wedi eu gohirio a'u dileu a ffyrdd a gaewyd oherwydd y tywydd gwael. Er cydnabod bod hyn wedi ei gyflawni am resymau diogelwch dilys, gofynnodd yr aelodau am sicrwydd bod Railtrack yn archwilio pontydd fel rhan o'r gweithgareddau cynnal a chadw arferol, nid fel ymateb i'r tywydd gerwin yn unig. Gofynnodd yr aelodau hefyd i'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth ystyried gwahanol ffyrdd o gadw'r M4 yn Llansawel ar agor yn ystod gwyntoedd cryf;
- Yr oedd yr aelodau'n siomedig bod Gerald Corbett, Prif Weithredwr Railtrack wedi methu cyfarfod â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd fel y trefnwyd. Yr oedd Sue Essex yn rhannu rhwystredigaeth y pwyllgor a byddai'n gofyn y cwestiynau a godwyd ganddynt i Railtrack ac i'r Gweinidogion Trafnidiaeth;
- Croesawodd y pwyllgor drosglwyddo datblygu cynaliadwy i bortffolio'r Gweinidog a theimlai y dylai'r pwyllgor archwilio datblygu cynaliadwy ar draws y Cynulliad Cenedlaethol. Codwyd materion ynghylch staffio a lleoliad yr Uned Ddatblygu Cynaliadwy, a nodwyd bod y rhain yn cael eu hystyried gan yr Ysgrifennydd Parhaol. Byddai Sue Essex yn cyfarfod â'r Cadeirydd a llefarwyr y pleidiau i drafod dull y Cynulliad Cenedlaethol o gefnogi datblygu cynaliadwy;
- Yr oedd mater tai fforddiadwy - yn enwedig mewn ardaloedd gwledig - wedi ei ystyried yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Rhanbarthol Gogledd Cymru, a theimlwyd y dylid integreiddio hyn â'r Cynlluniau Datblygu Unedol. Dywedodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd fod y mater hwn yn cael ei drafod fel rhan o'r adolygiad presennol o gyfarwyddyd polisi cynllunio. Byddai'r cyfarwyddyd diwygiedig yn ymdrin hefyd â pherygl llifogydd, ac yn gwneud defnydd o gyfarwyddyd Asiantaeth yr Amgylchedd. Byddid yn dosbarthu copïau o gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rhanbarthol i aelodau o Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth;
- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch trosglwyddo cyllid i Asiantaeth yr Amgylchedd. Nodwyd

y gellid cael y cyllid o danwariant ar ddarpariaeth y flwyddyn gyfredol ar gyfer grantiau seilwaith d^wr a charthffosiaeth;
- Awgrymwyd y dylid ystyried ariannu Gardd Fotanegol Genedlaethol Cymru. Dywedodd y Gweinidog fod grant dechreuol o tua £2 filiwn wedi ei roi i wella'r ffordd fynediad, ac y byddid yn rhoi ystyriaeth i unrhyw geisiadau am gyllid gan fod yr Ardd Fotanegol yn ffenestr siop i Gymru;
- Yr oedd pryderon ynghylch sicrwydd swyddi ym musnesau anstatudol Hyder wedi i Western Power Distribution eu cymryd drosodd. Yr oedd pryder wedi ei fynegi hefyd ynghylch cais D^wr Cymru am benderfyniad prisiau dros dro. Yr oedd rhaglen gynlluniedig y pwyllgor yn cynnwys archwilio newidiadau a gynigiwyd yn nhrwydded D^wr Cymru ar 15 Tachwedd. Yn y cyfamser, byddai'r Gweinidog yn darparu gwybodaeth bellach i'r aelodau am gais D^wr Cymru am benderfyniad prisiau dros dro.

3.3 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau bod y Gweinidog dros yr Amgylchedd wedi hysbysu'r pwyllgor am drosglwyddiadau cyllideb arfaethedig mewn perthynas â throsglwyddo Cronfa Datblygu'r Amgylchedd o'r portffolio Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i bortffolio'r Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth (£1 filiwn), a symud costau gweinyddol Cadw i Linell Gwariant Cyllideb ar wahân (£4,575,000). Cymeradwywyd y ddau newid gan y Cynulliad ar 10 Hydref.

3.4 Roedd y Cadeirydd yn falch y byddai papur ymgynghorol ar ddatblygiad mast telathrebu yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir, ond roedd wedi'i siomi ynghylch yr oedi.

***Pwyntiau gweithredu***:

- Sue Essex i gyfarfod â'r Cadeirydd a llefarwyr y pleidiau i drafod dull y Cynulliad Cenedlaethol o gefnogi datblygu cynaliadwy
- Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Rhanbarthol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 27 Hydref i'w dosbarthu i holl aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth
- Y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth i adrodd yn ôl ar ddewisiadau er mwyn cadw yr M4 ar agor ar bont Llansawel pan geir tywydd gwael iawn
- Sue Essex i ddarparu gwybodaeth bellach i'r aelodau am gais D^wr Cymru am benderfyniad prisiau dros dro

**Eitem 4: Adolygu Polisi ar Drafnidiaeth Gyhoeddus** - EPT-11-00 (p 2)

**Eitem 5: Fframwaith Trafnidiaeth y Cynulliad** - EPT-11-00 (p 3)

4.1 Dywedodd y Cadeirydd y byddid yn trafod eitemau 4 a 5 gyda'i gilydd. Awgrymodd y dylai'r pwyllgor ystyried: y broses a'r amserlen ar gyfer yr adolygiad; a phapur y Gweinidog dros yr Amgylchedd a'r themâu i'w hystyried gan yr adolygiad.

4.2 Gwahoddwyd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau a oedd ganddynt o dan Reol Sefydlog 4.5. Dywedodd Geraint Davies ei fod yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

4.3 Croesawodd y Cadeirydd yr Ymgynghorydd Arbenigol, Denys Morgan i'w gyfarfod cyntaf o'r pwyllgor, a chyflwynodd yn fyr y materion a ddisgrifir ym mhapur 2. Yr oedd dau gam i'r adolygiad: gwelliannau oddi mewn i'r fframweithiau gweinyddol a deddfwriaethol presennol, a gwelliannau a oedd yn gofyn newidiadau yn y fframweithiau hynny. Awgrymodd Denys Morgan y dylid ymdrin â cham un mewn dwy ran hefyd: y materion hynny yr ymdrinnir â hwy yn y Mesur Trafnidiaeth (os caiff ei wneud yn ddeddf), y gellid bwrw

ymlaen â hwy heb ohirio gofynion deddfwriaeth eilaidd y Cynulliad Cenedlaethol; a materion ehangach nad oeddent yn dibynnu ar amseru i'r un graddau. Gellid rhoi sylw i gam dau unwaith y cwblheid cam un.

4.4 Cytunodd yr aelodau ar y gweithgareddau a'r amserlen fras ar gyfer yr adolygiad, yn amodol ar y pwyntiau canlynol:

- Dylid gwahodd Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru), Ffederasiwn y Busnesau Bach, Undebau Llafur, cwmnïau bysiau cyhoeddus, a Chyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru i gyfrannu i'r adolygiad;
- Dylid ystyried system Rheilffordd Gul Bryste yn enghraifft o'r arfer gorau;
- Byddai'r aelodau'n ymgymryd ag amryw o siwrneiau ar drafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru er mwyn dynodi materion a wynebir gan deithwyr.

4.5 Cyflwynodd Sue Essex y ddogfen fframwaith (papur 3), a oedd i fod i oleuo trafodaeth y pwyllgor ar y themâu a oedd i'w hystyried yn ei adolygiad. Yr oedd y Fframwaith ar ffurf ddrafft ar y pryd, a byddid yn ystyried y fersiwn terfynol yng nghyfarfod y pwyllgor ar 29 Tachwedd.

4.6 Gwahoddwyd yr aelodau i roi eu sylwadau ar y fframwaith drafft a rhoddwyd yr awgrymiadau canlynol:

- Nid oedd y nodau trafnidiaeth tymor hir yn ddigon uchelgeisiol. Cytunodd y Gweinidog y byddid yn ailystyried y targedau, fodd bynnag, yr oedd yn rhaid bod yn ymarferol;
- Dylid darllen "context of sustainability" yn lle "constraints of sustainability";
- Trafodwyd nifer o gyfleoedd a materion polisi yn ymwneud â chludo llwythi ar reilffyrdd, y byddai'r Gweinidog yn eu codi mewn Fforwm Trafnidiaeth yn y dyfodol ac yn eu trafod gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol Cysgodol, Rheoleiddiwr y Rheilffyrdd, Railtrack a chwmnïau gweithredu.

4.7 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i roi eu sylwadau ar y themâu a oedd i'w trafod gan yr adolygiad. Cadarnhaodd yr aelodau y themâu a ddisgrifiwyd yn y papurau, yn amodol ar yr ychwanegiadau canlynol:

- Teithio awyr (fel rhan o gyfnewid);
- Fforddiadwyedd;
- Diogelwch personol.

***Pwyntiau gweithredu:***

- Sue Essex i godi cyfleoedd a materion polisi yn ymwneud â chludo llwythi ar reilffyrdd mewn Fforwm Trafnidiaeth yn y dyfodol a chyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol Cysgodol, Rheoleiddiwr y Rheilffyrdd, Railtrack a chwmnïau gweithredu.

**Eitem 6: Adolygiad Pum-mlynyddol Pwyllgor Ymgynghorol Cymru ar Asiantaeth yr Amgylchedd** - EPT-11-00 (p 4)

5.1 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5, a oedd fel y'u datganwyd cynt.

5.2 Wrth gyflwyno'r papur, eglurodd Michael Trickey ei fod yn adroddiad drafft a gyflwynwyd i'r pwyllgor er mwyn derbyn ei sylwadau cyn ei anfon ymlaen at y Gweinidogion. Yr oedd pob corff yn cael ei adolygu'n rheolaidd, a'r cwestiwn yn awr ydoedd a oedd angen y Pwyllgor Ymgynghorol o hyd, yn enwedig o ystyried y

gorgyffwrdd rhwng ei rôl ef a rôl Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth o dan Reol Sefydlog 9.7.

5.3 Ychwanegodd Sue Essex fod y Pwyllgor Ymgynghorol wedi cynhyrchu gwaith da iawn, ond y gallai Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ymgymryd yn awr â'i rôl archwilio. Nodwyd bod Eric Sunderland, Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol, yn fodlon bod barn ei bwyllgor wedi ei chyflwyno'n briodol mewn atodiad i'r papur, ac y byddai'n dymuno i arbenigedd ei bwyllgor fod ar gael i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth.

5.4 Ar ôl trafodaeth dywedodd y Cadeirydd fod y pwyllgor yn cytuno nad oedd angen y Pwyllgor Ymgynghorol bellach, ond y gallai ddymuno galw am ei arbenigedd yn y dyfodol. Cytunodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd i ystyried trosglwyddo arbedion o ddirwyn Pwyllgor Ymgynghorol Cymru i ben i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth er mwyn talu costau sydd yn gysylltiedig ag archwilio Asiantaeth yr Amgylchedd.

***Pwyntiau gweithredu***:

- Sue Essex i ystyried y cais i'r Gweinidog dros Gyllid drosglwyddo arbedion o ddirwyn Pwyllgor Ymgynghorol Cymru i ben i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth er mwyn talu costau sydd yn gysylltiedig ag archwilio Asiantaeth yr Amgylchedd

**Eitem 7: Adolygiad Rheolaeth Ariannol a Pholisi Asiantaeth yr Amgylchedd** - EPT-11-00 (p 5)

6.1 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5, a oedd fel y'u datganwyd cynt.

6.2 Wrth gyflwyno'r papur, eglurodd Bob Macey fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ei noddi gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Gwahoddwyd y pwyllgor i roi ei barn am y cylch gorchwyl a'r trefniadau trafod arfaethedig ar gyfer yr adolygiad.

6.3 Awgrymodd yr aelodau y dylai'r adolygiad ymdrin â'r meysydd canlynol a gofynasant am nodi'n benodol yn y cylch gorchwyl yr angen i adolygu'r berthynas rhwng y Cynulliad Cenedlaethol ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru:

- A oedd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ddigon o adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â rheoleiddio safleoedd tirlenwi;
- Adolygu gwaith amddiffyn rhag llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd. Nodwyd bod y Gweinidog dros yr Amgylchedd wedi cyhoeddi yr wythnos honno y byddai adolygiad o arferion amddiffyn rhag llifogydd yng Nghymru, a fyddai'n cydasio â'r adolygiad cyffredinol o Asiantaeth yr Amgylchedd;
- Rôl Asiantaeth yr Amgylchedd fel cefnogwr yr amgylchedd.

6.4 Yr oedd yr aelodau'n bryderus y byddai'r adolygiad yn cael ei gyflawni gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ar ei phen ei hun, a gofynasant i Sue Essex a'r swyddogion ystyried a allai'r Cynulliad Cenedlaethol gyfrannu unrhyw adnodd ychwanegol i dîm yr adolygiad er mwyn sicrhau y byddai dimensiwn Cymru yn cael ei archwilio'n llawn yn yr adolygiad. Nodwyd bod swyddogion ar Gr^wp Llywio Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, ac y byddid yn cynnal seminarau yng Nghymru fel rhan o'r adolygiad.

6.4 Diolchodd y Cadeirydd i Sue Essex a’r swyddogion am y papur a gofynnodd am drosglwyddo sylwadau’r pwyllgor ar y cylch gorchwyl drafft i gydweithwyr yn Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a’r Rhanbarthau a’r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

***Pwyntiau gweithredu***:

- Sue Essex i drosglwyddo sylwadau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar y cylch gorchwyl drafft ar gyfer yr adolygiad o Asiantaeth yr Amgylchedd i gydweithwyr yn Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a’r Rhanbarthau a’r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd
- Sue Essex a’r swyddogion i ystyried a oes modd i’r Cynulliad gyfrannu unrhyw adnodd ychwanegol i’r tîm adolygu er mwyn sicrhau y bydd dimensiwn Cymru yn cael ei archwilio’n llawn yn yr adolygiad.

**Eitem 8: Cofnodion cyfarfodydd 13 Medi** - EPT-08-00 (min)

7.1 Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Medi. Cyhoeddir cofnodion air am air o’r dystiolaeth a roddwyd yn y cyfarfodydd ar 12 a 18 Hydref ar 2 a 8 Tachwedd yn y drefn honno. Gofynnodd y Pwyllgor am gyfleu eu diolchiadau i bawb sy’n cymryd rhan yn sesiynau ymchwilio Nant-y-gwyddon.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

8.1 Byddai cyfarfod nesaf y pwyllgor am 2pm ddydd Mercher 15 Tachwedd yn adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Tachwedd 2000**